**Cyfleu Darllediadau Gwleidyddol, Etholiadol ac Ymgyrchoedd Refferendwm i S4C (PPB, PEB, RCBs)**

Mai 2024

## 1. Hyd y Darllediad

Ar gyfer pob darllediad teledu gallwch ddewis un o dri hyd darlledu gwahanol: naill ai 2’40”, 3’40” neu 4’40”. Byddwn angen hysbysiad o’r hyd a ddewiswyd ar gyfer y gyfres gyfan o ddarllediadau o leiaf bythefnos cyn dyddiad y darllediad. Unwaith y byddwch wedi dewis, bydd disgwyl ichi gyfleu ar yr hyd a gytunwyd.

Mae amserlennu darllediadau yn fater i S4C. Mae S4C yn cadw rheolaeth olygyddol dros amserlennu, ac mae ganddi'r hawl i ganslo ac aildrefnu darllediadau os bydd stori newyddion yn torri, digwyddiad mawr neu reswm arall sy'n golygu ei bod yn briodol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau.

## 2. Cymhareb Agwedd

Rhaid ichi gyfleu ar ffeil fformat AS-11 a sicrhau cydymffurfiaeth gyda DPP mewn sgrin lydan ar fformat 16x9 uchder llawn anamorffig (nid 16x9 *deep letterbox*). Dylid cyfyngu graffeg o fewn maes diogel 16:9.

Gweler ‘Safonau Technegol Cyfleu Rhaglenni Teledu i S4C’, sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C, am ragor o wybodaeth a gofynion o ran enwi’r ffeil: https://www.s4c.cymru/media/media_assets/Technical_Standards_for_Delivery_of_Television_Programmes_to_S4C_2020_Welsh_Rev1a.pdf

## 3. Safonau Technegol ar gyfer PPB, PEB a RCBs

Wrth gwrs, materion ar gyfer y blaid wleidyddol neu’r sefydliad ymgyrchu dynodedig perthnasol yn unig yw steil a chynnwys y PPB, PEB a’r RCB, ond dylid cadw at rai canllawiau a chonfensiynau sylfaenol, er enghraifft:

a) dylid lleoli ‘Name Supers’ er mwyn sicrhau nad yw ceg y person sy’n siarad yn cael ei guddio;
b) dylai Graffeg Gwybodaeth fod yn ddealladwy ac o fewn “Domestic Cut Off” fel bod y gwyliwr adref yn medru darllen y testun cyfan;
c) dylid ystyried defnydd gwyliwr o isdeitlau wrth fframio golygfeydd a dylunio graffeg;
ch) dylid cydbwyso’r defnydd o gerddoriaeth er mwyn bod pobl sydd ag anawsterau clywed yn medru clywed y gair llafar yn glir.

Rhaid i bob PPB, PEB a RCB gydymffurfio â’r un safonau technegol â phob un o raglenni S4C a dylid cadw at y manylebau ar bob amser. Gellir dod o hyd i wybodaeth lawn am fanylebau technegol a gwybodaeth cyfleu ar ein gwefan ar: https://www.s4c.cymru/media/media_assets/Technical_Standards_for_Delivery_of_Television_Programmes_to_S4C_2020_Welsh_Rev1a.pdf

## 4. Iaith Gymraeg

Dylai'r PPB/PEB/RCB fod yn yr iaith Gymraeg a dylai gydymffurfio â Chanllawiau Iaith S4C y gellir dod o hyd iddynt ar:

https://www.s4c.cymru/media/media_assets/Canllawiau_Iaith_2024_terfynol.pdf

Mae darllediad yn yr iaith Gymraeg yn golygu darllediad sydd wedi ei gynhyrchu yn y Gymraeg yn bennaf ac sy'n addas i'w ddarlledu yn ystod oriau darlledu brig S4C. Os yw'r PPB/PEB/RCB yn cynnwys defnydd helaeth o drosleisio ac/neu isdeitlo, neu os nad yw'n cydymffurfio â Chanllawiau Iaith S4C, mae S4C yn cadw'r hawl i beidio â'i ddarlledu.

## 5. Cyfleu

Rhaid cyfleu prif ffeil y PPB, PEB neu'r RCB trwy system gyfleu ffeil S4C erbyn **10:00 TRI DIWRNOD GWAITH CYN** y dyddiad darlledu. Bydd hyn yn galluogi adolygiad technegol llawn, adolygiad i sicrhau cydymffurfiaeth a bod unrhyw broblemau a gaiff eu canfod yn medru cael eu datrys cyn darlledu. Os nad yw hyn yn bosib, yna cysylltwch i wneud trefniadau amgen os gwelwch yn dda.

Mae S4C yn cadw'r hawl i ganslo neu aildrefnu darllediad lle nad yw'r deunydd wedi ei gyfleu ar amser, ddim yn cael ei gyflwyno i fanylebau technegol S4C neu lle bo materion cydymffurfiaeth yn codi. Mae S4C hefyd yn cadw'r hawl i godi tâl am unrhyw gostau ychwanegol a achosir.

## 6. Cysylltiadau a Manylion Cyfleu

Y prif gyswllt ar gyfer materion technegol a chyfleu yw Jen Pappas, Arolygydd Sianel (Archif a Chynnwys) (e-bost: jen.pappas@s4c.cymru, rhif ffôn: 03305 880 486

## 7. Gwybodaeth Hanfodol

Bydd angen manylion am unrhyw gerddoriaeth a gaiff ei ddefnyddio yn y PPB, PEB neu'r RCB ar bob darlledwr, boed y gerddoriaeth yn fasnachol, llyfrgell neu wedi ei gyfansoddi'n arbennig. Yn ogystal, bydd angen enwau unrhyw actorion a ddefnyddir a'u hasiantau. Mae angen y manylion hyn er mwyn i ddarlledwyr allu cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol ac ni ellir eu hepgor.

Dylai enw a rhifau cyswllt y person sy'n gyfrifol am y PPB/PEB/RCB fod yn amlwg ar y danfoniad, yn ogystal ag enw a rhif ffôn cyswllt unrhyw gwmni cynhyrchu a ddefnyddiwyd.

## 8. Deunydd Cyfleu

Am bob fersiwn o'r PPB, PEB a RCB mae arnom angen:

- 1 x Ffeil AS-11
- Sgript wedi'i argraffu ac Adroddiad Cerddoriaeth
- Rhestr actorion
- Datganiad PPB/PEB/RCB Safonol S4C (y mae copi ohono ar gael ar wefan cynhyrchu S4C yma: https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/)

## 9. Ymholiadau

Os oes unrhyw gwestiynau cyffredinol am gyfleu, cynhyrchu neu faterion technegol, gellir eu cyfeirio at Jen Pappas, Arolygydd Sianel (Archif a Chynnwys) (03305 880 486 / jen.pappas@s4c.cymru).